## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cwblhau'r Tudalennau Senedd | MPN1 |
| **Manylion y swydd** | MPN2 |
| **Incwm o'r swydd** | MPN2 |
| **Arian** | MPN2 |
| Taliadau ariannol | MPN2 |
| Treth a ddidynnwyd | MPN2 |
| **Buddiannau, treuliau a thaliadau mantoli** | MPN2 |
| Gwarantau teithio, talebau ac ati | MPN2 |
| Llety ac eithrio Lwfans Costau Byw Ychwanegol | MPN2 |
| Lwfans milltiroedd gan ddefnyddio cludiant eich hun ar fusnes seneddol | MPN3 |
| Lwfans Costau Swyddfa: eitemau digyfalaf | MPN3 |
| Lwfans Costau Swyddfa: eitemau cyfalaf | MPN3 |
| Cronfa Cymorth Ariannol | MPN3 |
| Ad-daliadau ariannol eraill | MPN3 |
| Pob buddiant arall | MPN3 |
| Taliadau mantoli | MPN4 |
| **Cyfandaliadau a thaliadau neu fuddiannau iawndal** | MPN4 |
| **Treuliau a dalwyd gennych** | MPN4 |
| Gwarantau teithio | MPN4 |
| Cymorth ysgrifenyddol a chlerigol, a chymorth ymchwil | MPN4 |
| Treuliau swyddfa | MPN4 |
| Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf | MPN5 |
| **Benthyciadau Myfyrwyr** | MPN5 |
| **Benthyciadau Myfyrwyr a ddidynnwyd gan y Swyddfa Ffioedd** | MPN5 |
| **Darpariaeth pensiwn** | MPN5 |


## TAFLENNI CYMORTH

Mae Taflenni Cymorth sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth arbennig ar gyfer y Tudalennau Senedd ar gael o'r Llinell Archebu.

- *IR125: Defnyddio eich car neu eich beic modur eich hun ar gyfer gwaith*
- *IR204: Lump sums and compensation payments*
- *IR206: Capital allowances for employees and office holders**
- *Llyfryn 480: Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth*

Mae'r llyfryn *MPs, Ministers and Tax* yn cynnwys gwybodaeth gefndir a allai hefyd fod yn ddefnyddiol. Mae'r llyfryn ond ar gael gan:
Adran Gyhoeddus 1,
Tŷ Glas,
Llanisien,
Caerdydd,
CF14 5XZ.
Ffôn 02920 325000 est. 5201 neu ffacs 02920 765642.

* *copi yn amgaeëdig gyda'r Nodiadau hyn*

## Cwblhau'r Tudalennau Senedd

***Defnyddir y gair 'swydd' yn y Nodiadau hyn i gynnwys y swydd a ddelir fel AS, fel AS a Gweinidog, neu fel Gweinidog yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae 'P11D' hefyd yn golygu P11D, P9D neu wybodaeth gyfatebol.***

Mae'r Tudalennau Senedd ond yn cwmpasu eich incwm Seneddol; gwnewch yn siwr eich bod hefyd yn cwblhau Tudalennau eraill sy'n briodol i'ch amgylchiadau.

Casglwch ynghyd y deunydd sydd ei angen arnoch, er enghraifft:

- eich P60, ffurflen Swyddfa Ffioedd neu ffurflen Adran y Llywodraeth sy'n dangos manylion cyflog a threth ar gyfer y flwyddyn
- eich Hysbysiadau Côd (P2) ar gyfer 2001-2002 a 2002-2003
- ffurflen P11D neu ddatganiad cyfatebol o'r Swyddfa Ffioedd neu Adran y Llywodraeth sy'n rhoi manylion unrhyw fuddiannau a threuliau a dderbynioch yn y flwyddyn
- derbynebion ar gyfer unrhyw dreuliau caniatáol a delir gennych
- unrhyw rai o'r Taflenni Cymorth y credwch sydd eu hangen arnoch.

**Seilir y Tudalennau Senedd hyn ar y Tudalennau Cyflogaeth. Fodd bynnag, mae angen llai o flychau, felly mae rhai o rifau'r blychau ar goll.**

### *Os oeddech yn eich swydd ar 5 Ebrill 2002*

Dylai eich P60 ddangos cyfanswm y cyflog a'r dreth o'ch swydd (yn ogystal ag o gyflogaethau blaenorol yn ystod y flwyddyn). Dylai eich P45 (Rhan 1A), os oedd gennych un, ddangos hefyd y cyflog o gyflogaethau blaenorol. Peidiwch â chynnwys yn y Tudalennau Senedd unrhyw symiau ar eich P60, neu P45 (Rhan 1A) sy'n berthnasol i gyflogaethau ar wahân i'ch swydd fel AS neu fel Gweinidog.

### *Os buoch yn Aelod Seneddol*

Cwblhewch **un** copi o'r Tudalennau Senedd.

### *Os buoch yn Weinidog yn Nhŷ'r Cyffredin*

Cwblhewch **un** copi o'r Tudalennau Senedd ar gyfer eich incwm fel AS ac **un** sy'n berthnasol i'ch swydd Weinidogaethol - ond gweler isod os newidioch swydd.

### *Os buoch yn Weinidog yn Nhŷ'r Arglwyddi*

Cwblhewch **un** copi o'r Tudalennau Senedd - ond gweler isod os newidioch swydd.

### *Os newidioch eich swydd yn ystod y flwyddyn*

Cwblhewch gopi **ar wahân** o'r Tudalennau Senedd ar gyfer **pob** swydd y derbynioch unrhyw incwm ohoni yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2002.

### *Os buoch yn dal swydd anSeneddol neu gyflogaeth ar yr un pryd*

Cwblhewch set ar wahân o dudalennau Cyflogaeth ar gyfer pob cyflogaeth anSeneddol y derbynioch unrhyw incwm ohoni.

SA101(MP) (Nodiadau)

## *Manylion y swydd*

**blychau 1.3, 1.4 ac 1.6** Rhowch y dyddiadau pan ddechreuodd neu pan orffennodd eich swydd fel AS neu Weinidog os ydynt rhwng 6 Ebrill 2001 a 5 Ebrill 2002. Ticiwch flwch 1.6 os oeddech yn dal swydd weinidogaethol yn ystod y cyfnod hwn.

## *Incwm o'r swydd*

### *Arian*

**blychau 1.8 ac 1.10** Nodwch yn y blychau yr arian a dderbynioch fel AS neu fel Gweinidog.

Bydd eich P60 yn dangos ffigurau ar gyfer cyflog a threth o'r swydd roeddech yn ei dal ar 5 Ebrill 2002. Os cawsoch fwy nag un swydd, gall y ffurflen gynnwys ail set o fanylion cyflog a threth hefyd ar gyfer eich swyddi blaenorol. Bydd y ffigurau wedi'u hychwanegu at ei gilydd yn y ffigurau ar eich P60. Efallai y bydd angen i chi gyfeirio at gofnodion eraill (fel slipiau cyflog, ffurflenni P45 (Rhan 1A), neu ddatganiadau o fuddiant trethadwy) er mwyn gweithio allan y ffigurau ar gyfer y cyflog o swyddi blaenorol i'w rhoi ym mhob copi o'r Tudalennau Senedd a gwblhewch (un ar gyfer pob swydd). Os oeddech yn ddiwaith yn ystod y flwyddyn, bydd y ffigur ar eich P60 yn cynnwys unrhyw Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dâl Analluogrwydd a dderbyniwch. Peidiwch â chynnwys y rhain yn y Tudalennau Senedd (neu unrhyw gopïau o'r Tudalennau Cyflogaeth a gwblhewch).

Eglurir rhai o'r eitemau mwyaf cyffredin i'w cynnwys yn yr adran 'Taliadau ariannol' isod. Os derbynioch eitem neu daliad mewn cysylltiad â'ch swydd ac nad ydych yn siwr a ddylech ei gynnwys ai peidio, cysylltwch â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth am gyngor.

#### *Rheol gyffredinol*

Dylai'r symiau a nodwch ym mlychau 1.8 ac 1.10 gynnwys yr **holl** incwm a dderbynioch yn y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill 2002 fel AS neu fel Gweinidog hyd yn oed os oeddech wedi ei ennill mewn blwyddyn dreth gynharach neu os cawsoch eich talu am waith sydd heb ei wneud eto.

Dylech drin yr incwm hwn fel petaech wedi ei dderbyn ar y cynharaf

- o'r dyddiad pan wnaed y taliad, neu'r taliad ar gyfrif, **neu**
- o'r dyddiad pan oedd hawl gennych i gael eich talu.

Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os na chawsoch eich talu tan yn ddiweddarach, neu os na dderbynioch unrhyw daliad gwirioneddol am eich bod wedi trefnu i'r swm oedd yn ddyledus i chi gael ei gymhwyso mewn rhyw ffordd arall yn lle hynny.

#### ● Taliadau ariannol

Ar gyfer pob eitem mae'n rhaid i chi nodi'r swm **cyn** didynnu unrhyw dreuliau yr hoffech wneud cais amdanynt.

**Y taliadau ariannol y dylech eu cynnwys ym mlychau 1.8 ac 1.10 yw**

- eich cyflog fel AS neu Weinidog (blwch 1.8)
- tâl salwch statudol a thâl mamolaeth statudol ac eithrio pan gewch eich talu gan Gyllid y Wlad (blwch 1.8)
- taliadau gan drydydd parti pan wneir y taliad fel gwobr am wasanaethau a roddir neu sydd eto i'w rhoi yn rhinwedd eich swydd fel AS neu fel Gweinidog (blwch 1.10)

**Yr eitemau na ddylech eu cynnwys ym mlychau 1.8 ac 1.10 yw:**

- buddiannau a thaliadau treuliau a dderbyniwyd - nodwch y rhain ym mlychau 1.13 i 1.23
- cyfandaliadau a dalwyd mewn cysylltiad â therfynu swydd, ymddeoliad neu farwolaeth. Nodwch y rhain ym mlychau 1.24 i 1.29.
- taliadau a wnaed i'r Cynllun Pensiwn Seneddol.

O ydych wedi derbyn cyfandaliad, er enghraifft Grant Ailsefydlu, y mae'n rhaid i chi ei roi ym mlychau 1.24 i 1.29, **a** chafodd y taliad ei drethu a'i gynnwys yn y ffigurau cyflog a threth ar eich P45, gwnewch yn siwr eich bod yn ei ddidynnu o'r ffigur a roddwch ym mlwch 1.8.

#### ● Treth a ddidynnwyd

**blwch 1.11** Nodwch ym mlwch 1.11 swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o'r symiau a ddangosir ym mlychau 1.8 ac 1.10.

Defnyddiwch y ffigur P60 neu'r P45 (Rhan 1A) ar gyfer blwch 1.11 hyd yn oed os ydych wedi gwneud addasiad ym mlwch 1.8 oherwydd bod angen i chi gwblhau blychau 1.24 i 1.29.

### *Buddiannau, treuliau a thaliadau mantoli*

Bydd y Swyddfa Ffioedd neu eich Adran o'r Llywodraeth yn anfon manylion yr holl fuddiannau a dderbynioch yn rhinwedd eich swydd atom. Byddant yn rhoi'r manylion hyn i chi hefyd.

Ni fydd y manylion a gewch yn cynnwys unrhyw eitemau y mae gan y Swyddfa Ffioedd neu'r Adran **oddefeb** amdanynt. Nid oes angen i chi gyfeirio at yr eitemau hyn. (Trefniant yw **goddefeb** y bydd y Swyddfa Ffioedd neu'r Adran efallai wedi ei wneud gyda Swyddfa Cyllid y Wlad. Mae'n eich arbed rhag cynnwys fel incwm, buddiant neu daliad treuliau a dderbyniwch fel AS neu fel Gweinidog ac yn eich arbed rhag gwneud cais cyfatebol am y treuliau caniatáol a delir gennych.)

#### ● Gwarantau teithio, talebau ac ati

**blwch 1.13** Mae eich incwm Seneddol yn cynnwys gwerth unrhyw dalebau a ddarperir ar eich cyfer (neu ar gyfer eich teulu neu eich cartref) yn rhinwedd eich swydd fel AS. Pan fyddwch wedi teithio mewn trên, ar long neu mewn awyren ac wedi defnyddio gwarantau teithio, bydd y Swyddfa Ffioedd, yn dweud wrthym am gostau'r teithiau nad ydynt yn amlwg yn deithiau busnes. Byddant hefyd yn rhoi'r wybodaeth hon i chi. Cwmpesir pob taith fusnes gan 'oddefeb' ac nid oes rhaid i chi eu nodi ar eich Ffurflen Dreth.

Nodwch ym mlwch 1.13 y ffigur a roddwyd i chi gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer teithiau nad ydynt yn deithiau busnes. Os credwch fod y ffigur hwn yn cwmpasu mwy na'ch teithiau preifat, gallwch wneud cais ym mlwch 1.32 am y swm sy'n berthnasol i deithiau busnes. Os hoffech eglurhad pellach cysylltwch â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

#### ● Llety ac eithrio Lwfans Costau Byw Ychwanegol

**blwch 1.14** Mae eich incwm Seneddol yn cynnwys gwerth unrhyw lety a gwasanaethau ategol (er enghraifft gwres, golau, glanhau) a gewch chi (neu eich teulu neu eich cartref) yn rhinwedd eich swydd fel AS. (Dylai unrhyw lety a gewch yn rhinwedd swydd neu gyflogaeth arall gael ei ddangos ar Dudalennau ar wahân sy'n cwmpasu'r swydd neu'r gyflogaeth honno.) Fodd bynnag, mae gwerth rhai mathau o lety wedi'i eithrio o dreth, er enghraifft, os oes bygythiad arbennig i'ch diogelwch ac os darperir y llety i chi fel rhan o drefniadau diogelwch arbennig. Os ydych wedi cytuno â ni bod eich llety wedi'i eithrio yna, oni bai bod amgylchiadau wedi newid, peidiwch â nodi unrhyw beth ym mlwch 1.14 ar gyfer gwerth y llety. Fodd bynnag, codir treth ar y gwasanaethau ategol. Cyfyngir hyn fel arfer i 10% o gyflog y swydd dan sylw. Nodwch y gwerth hwn ym mlwch 1.14.

## ● Lwfans Milltiroedd - gan ddefnyddio cludiant eich hun ar gyfer busnes Seneddol

**blwch 1.15**

Os yw'r Swyddfa Ffioedd neu Adran o'r Llywodraeth yn talu lwfans milltiroedd i chi am ddefnyddio eich cludiant eich hun ar gyfer busnes Seneddol, gall y symiau a gewch fod yn fwy na chost y teithiau. Mae'r swm ychwanegol yn elw trethadwy. Nodwch y ffigur hwn ym mlwch 1.15. Os yw'r swm a gewch yn llai na chostau eich teithiau, gallwch wneud cais am ryddhad treth am y gwahaniaeth drwy ei gynnwys ym mlwch 1.35.

Os ydych yn defnyddio eich car eich hun, dylid darparu'r ffigur elw i chi yn seiliedig ar gyfraddau milltiroedd didreth awdurdodedig Cyllid y Wlad. Nodwch y ffigur hwn ym mlwch 1.15.

Os ydych yn defnyddio eich beic modur neu eich beic eich hun, dylid darparu manylion y lwfans milltiroedd a dalwyd i chi. Gallwch ddefnyddio ein cyfraddau milltiroedd beicio awdurdodedig (24c y filltir i feic modur a 12c y filltir i feic) i gyfrifo costau eich teithiau. Gallwch felly gyfrifo p'un ai a oes elw trethadwy yn codi neu i gyfrifo p'un ai a allwch wneud cais am ryddhad.

- os ydych am weithio allan swm unrhyw elw neu ryddhad trethadwy ar sail y lwfansau a gewch a chostau gwirioneddol defnyddio eich cludiant eich hun ar gyfer busnes Seneddol, **neu**
- os oes angen mwy o wybodaeth arnoch

gofynnwch i'r Llinell Archebu am daflen IR125: *Defnyddio eich car neu eich beic modur eich hun ar gyfer gwaith.*

Trethir Lwfansau Milltiroedd a delir ar gyfer teithiau preifat boed mewn car, ar feic modur neu ar feic, a'u cynnwys yn y cyfanswm ar eich P60 ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oes angen i chi gynnwys unrhyw beth ar gyfer y teithiau preifat hyn ym mlwch 1.15

## ● Lwfans Costau Swyddfa: eitemau digyfalaf

**blwch 1.16** Bydd yr holl symiau a dderbyniwch gan y Swyddfa Ffioedd i'ch ad-dalu ar gyfer treuliau a delir gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog am redeg swyddfa neu am gymorth ysgrifenyddol ac ymchwil, yn drethadwy. (Gwnewch gais am unrhyw dreuliau caniataol at ddibenion treth drwy gwblhau blychau 1.32 i 1.35.)

Os, yn ystod y flwyddyn, newidioch o'r Lwfans Costau Swyddfa i'r Ddarpariaeth Mân Dreuliau, dylid trin pob taliad, gan gynnwys unrhyw symiau a ddarparwyd ar gyfer diogelwch, o dan y ddwy drefn, yn ôl yr hyn a amlinellir isod. Ychwanegwch y symiau a dderbynioch at ei gilydd, a nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.16.

Dylai'r Swyddfa Ffioedd roi'r manylion i chi. Nodwch ym mlwch 1.16 y swm a ad-dalwyd neu a dalwyd i chi, neu ar eich rhan, gan y Swyddfa Ffioedd, ar gyfer treuliau rhedeg dyddiol eich swydd. Peidiwch â chynnwys unrhyw symiau ar gyfer prynu offer swyddfa gan mai cyfalaf yw hyn - defnyddiwch flwch 1.17 yn lle hynny.

Enghreifftiau o'r symiau i'w cynnwys ym mlwch 1.16 yw'r rhai a dderbyniwch sy'n cwmpasu:

- costau swyddfa - pethau dyddiol fel gwres, golau, ffôn, post, deunyddiau papur
- cymorth ysgrifenyddol ac ymchwil - cyflog, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr, taliadau i gynorthwywyr achlysurol.

Peidiwch â chynnwys fel incwm unrhyw symiau a dalwyd i chi gan y Swyddfa Ffioedd fel cyfraniad tuag at y pensiynau ar gyfer ysgrifenyddion a chynorthwywyr ymchwil. Ni ddylech ychwaith wneud cais am lwfans ar gyfer y symiau hynny. Mae'r symiau yn drethadwy ac yn ganiataol mewn symiau tebyg ac rydym wedi cytuno nad oes angen i chi eu nodi ar eich Ffurflen Dreth.

## ● Lwfans Costau Swyddfa: eitemau cyfalaf

**blwch 1.17** O dan reolau'r Lwfans Costau Swyddfa, gall y Swyddfa Ffioedd ad-dalu cost offer swyddfa i chi, fel prosesydd geiriau, cyfrifiadur personol neu ffôn symudol. Cewch eich trethu ar y symiau hyn a ad-dalwyd. Dylai'r Swyddfa Ffioedd roi manylion i chi. Nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.17. (Os ydych am wneud cais am lwfansau cyfalaf cwblhewch flwch 1.35).

Dylid trin unrhyw gyfarpar a brynwyd allan o'r Ddarpariaeth Mân Dreuliau yn yr un modd. Ond nid oes angen i chi gynnwys unrhyw beth ar gyfer cyfarpar sydd ar gael ichi o dan drefniadau'r Tŷ ar gyfer darparu cyfarpar Gwybodaeth Technoleg.

## ● Cronfa Cymorth Ariannol

**blwch 1.18** Os cewch, fel Llefarydd dros yr Wrthblaid, daliad gan y Gronfa Cymorth Ariannol, mae'n drethadwy fel eich incwm (yn yr un ffordd â'r Lwfans Costau Swyddfa). Nodwch y swm ym mlwch 1.18. (Gallwch wneud cais am unrhyw dreuliau caniataol a delir gennych ar eich dyletswyddau Seneddol ar Dudalen MP2.)

## ● Ad-daliadau ariannol eraill

**blwch 1.19** Nodwch ym mlwch 1.19 unrhyw ad-daliadau a wnaed i chi gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer costau llogi cerbyd, costau tacsi neu unrhyw ad-daliadau trethadwy nas nodwyd rywle arall ar y Tudalennau hyn. Gall unrhyw gais am ryddhad treth ar gyfer y taliadau hyn gael eu gwneud ym mlychau 1.32 i 1.35.

## ● Pob buddiant arall

**blwch 1.22** Dylai'r Swyddfa Ffioedd neu eich Adran fod wedi rhoi manylion i chi am fuddiannau eraill a dderbynioch. Nodwch ym mlwch 1.22 gyfanswm y cyfwerth mewn arian unrhyw fuddiannau eraill a dderbynioch fel AS neu fel Gweinidog nas crybwyllwyd yn benodol rywle arall er enghraifft ym mlychau 1.13 i 1.19.

### *Cyfwerth mewn arian buddiannau eraill*

Pennir y cyfwerth mewn arian mewn ffyrdd gwahanol, yn unol â'r math o fuddiant.

**Asedion (ac eithrio tir a cherbydau modur) a ddarperir at ddefnydd preifat**

Pan fydd yr ased wedi bod ar gael drwy'r flwyddyn bydd y cyfwerth mewn arian fel arfer yn seiliedig ar:

- 20% o'i werth ar y farchnad pan gafodd ei defnyddio gyntaf i ddarparu buddiant a **hefyd**
- treuliau (ac eithrio'r gost o'i brynu) a dalwyd gennych mewn cysylltiad ag ef na fyddech wedi eu talu oni bai am ddarpariaeth y buddiant.

Os yw'r swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un gweithiwr bydd y cyfwerth mewn arian pob un yn seiliedig ar gyfran o'r cyfanswm. Caiff y cyfwerth mewn arian ei ostwng gan unrhyw swm a ad-delir i'r darparwr yn gyfnewid am y buddiant. Am fwy o wybodaeth, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

**Pob buddiant arall**

Y cyfwerth mewn arian fel arfer fydd yr hyn gostiodd y buddiant i'r person a'i ddarparodd (llai unrhyw swm a ad-dalwyd i'r darparwr). Y gost hon yw'r swm y byddai'r darparwr wedi'i arbed pe na bai'r buddiant wedi cael ei ddarparu. Os yw'r swm hwnnw yn cynrychioli buddiannau a ddarparwyd ar gyfer mwy nag un gweithiwr bydd y cyfwerth mewn arian pob un yn seiliedig ar gyfran o'r cyfanswm. Am fwy o wybodaeth gweler *Ilyfryn 480, Treuliau a Buddiannau - Canllaw Treth* sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Gwnewch yn siwr eich bod yn cynnwys ym mlwch 1.22 fuddiant car, neu gar a thanwydd, oedd ar gael i chi yn rhinwedd eich swydd fel AS. Peidiwch â chynnwys buddiannau o unrhyw swydd anSeneddol neu gyflogaeth. Nodwch y rhain ar Dudalennau Cyflogaeth eich Ffurflen Dreth.

Rhestrir rhai o'r buddiannau mwyaf cyffredin yn y Daflen Waith isod i'ch helpu i bennu cyfanswm ar gyfer blwch 1.22.

### *Taflen Waith ar gyfer blwch 1.22*

| | | |
|---|---|---|
| Asedion a ddarparwyd at ddefnydd preifat | £ | |
| Ffôn/ffonau cartref | £ | |
| Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol | £ | |
| Nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd | £ | |
| Lleoedd mewn meithrinfa a ddarparwyd (mewn rhai amgylchiadau **ni** chodir treth am y buddiant hwn - *gweler llyfryn 480*) | £ | |
| Cymorth addysgol a ddarparwyd (mewn rhai amgylchiadau **ni** chodir treth am y buddiant hwn - *gweler llyfryn 480*) | £ | |
| Pob buddiant arall | £ | |
| **Cyfanswm** | A £ | |

**Copïwch y ffigur ym mlwch A i flwch 1.22 yn y Tudalennau Senedd.**

#### ● Taliadau mantoli

**blwch 1.23** Pan fydd y Swyddfa Ffioedd yn eich ad-dalu, neu'n talu ar eich rhan, y gost o brynu offer swyddfa, mae'r symiau yn drethadwy.

Gallwch wneud cais am ryddhad treth ar gyfer dibrisiant blynyddol offer sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio wrth gyflawni eich dyletswyddau. Gelwir y rhyddhad hwn yn 'lwfansau cyfalaf'. Weithiau, pan werthir neu pan roddir i ffwrdd eitem o'r offer, caiff peth o'r lwfansau cyfalaf eu hadennill. Gelwir hyn yn 'dâl mantoli'.

Rhoddir eglurhad manwl o'r ffordd y caiff lwfansau cyfalaf eu gweithio allan ei roi yn *Nhaflen Gymorth IR206: Capital Allowances for employees and office holders* ac amgaeir copi ohoni. Os bydd angen arweiniad pellach arnoch, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu gynghorydd treth.

### ■ *Cyfandaliadau a thaliadau neu fuddiannau iawndal*

**blychau 1.24 i 1.29** Mae rheolau gwahanol yn gymwys i fathau gwahanol o gyfandaliadau. Os derbynioch gyfandaliad neu daliad iawndal yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2002 gan y Swyddfa Ffioedd megis, er enghraifft, Grant Ailsefydlu, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR 204: Lump sums and compensation payments.* Bydd angen hon arnoch er mwyn cwblhau blychau 1.24 i 1.30.

**blwch 1.30** Nodwch ym mlwch 1.30 swm unrhyw dreth a ddidynnwyd o gyfandaliadau a thaliadau iawndal.

### ■ *Treuliau a dalwyd gennych*

**blychau 1.32 i 1.35** Mae'r adran hon yn egluro'r rheolau ar gyfer gwneud cais am dreuliau a dalwyd gennych o anghenraid wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Nodwch y gall y Swyddfa Ffioedd wneud taliadau ar eich rhan, na ellir didynnu treth ohonynt.

#### *'Goddefebau'*

**Peidiwch** â chynnwys yn eich cais unrhyw dreuliau a dalwyd gennych:

- os gallwch eu hawlio'n ôl o'r Swyddfa Ffioedd neu o'ch Adran, **ac**
- os cwmpesir y treuliau gan **oddefeb**.

(Os ydych yn ansicr a oes gan y Swyddfa Ffioedd neu'r Adran oddefeb dylech ofyn am fanylion. Gweler hefyd yr adran dan y pennawd 'Buddiannau, treuliau a thaliadau mantoli' ar dudalen MPN2.)

Fodd bynnag, os talwyd gwariant caniataol gennych sy'n fwy na'r swm a gwmpesir gan yr oddefeb gallai fod hawl gennych i wneud cais am ddidyniad ar gyfer y swm dros ben.

#### ● Gwarantau teithio

**blwch 1.32** Caiff teithiau a wnewch ar drên, ar y môr neu mewn awyren y telir amdanynt gan warantau teithio eu harchwilio gan y Swyddfa Ffioedd .

Bydd y Swyddfa Ffioedd yn dweud wrthych am gostau teithiau nas ystyriwyd yn amlwg yn deithiau busnes. Os credwch fod y swm yn anghywir - ac mae'n cynnwys mwy na chost teithiau preifat - dylech nodi ym mlwch 1.32 y swm y credwch sy'n gysylltiedig â theithiau busnes.

#### ● Cymorth ysgrifenyddol a chlerigol, a chymorth ymchwil.

**blwch 1.33** Gallwch wneud cais am gost cyflogi cynorthwywyr ysgrifenyddol a chlerigol, a chynorthwywyr ymchwil pan delir amdanynt o anghenraid wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Bydd y cais fel arfer gyfwerth â swm eich Lwfans Costau Swyddfa a ddefnyddir ar gyfer costau'r staff hyn. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi manylion i chi.

Nodwch **ar wahân** yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 1.40 ar dudalen MP2, swm y taliadau i'r:

- cynorthwywyr ysgrifenyddol neu glerigol; **a**
- cynorthwywyr ymchwil.

Adiwch y symiau hyn a nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.33.

Dylai'r ffigur hwn gynnwys taliadau a wnaethoch o'ch cronfeydd eich hun, neu o'r Gronfa Cymorth Ariannol, a'r rhai a hysbysir i chi gan y Swyddfa Ffioedd.

Ni all cyfanswm y treuliau fynd y tu hwnt i'r incwm o'ch swydd yn cynnwys taliadau o'r Gronfa Cymorth Ariannol a thaliadau a hysbysir i chi gan y Swyddfa Ffioedd.

Os ydych yn aelod newydd a etholwyd ar 7 Mehefin 2001 bydd y cyflogau hyn wedi eu talu gan y Swyddfa Ffioedd o dan y drefn Ganolog a ddaeth i rym o 5 Gorffennaf 2001. Nid oes angen i chi nodi taliadau a wnaed ar ôl y dyddiad hwnnw.

Os nad ydych yn aelod newydd ond rydych wedi dewis defnyddio'r drefn Ganolog, yna nid oes angen i chi nodi manylion y taliadau a wnaed ar ôl dyddiad newid y trefniadau ar gyfer y cyflogau hyn.

#### ● Treuliau swyddfa

**blwch 1.34** Nodwch ym mlwch 1.34 gyfanswm y symiau a wariwyd yn ystod y flwyddyn ar redeg eich swyddfa'n ddyddiol, er enghraifft, ar wres, golau, ffôn, post, deunyddiau ysgrifennu. Yn aml bydd y ffigur yn gyfwerth â'r symiau a dalwyd i chi neu ar eich rhan gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer y mathau hynny o eitemau. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi manylion i chi.

Os ydych, yn ystod y flwyddyn yn newid o'r drefn Lwfans Costau Swyddfa i'r Ddarpariaeth Mân Dreuliau dylai pob taliad o dan y ddwy system gael ei drin fel yr amlinellir. Adiwch y symiau a dderbynioch at ei gilydd a nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.34.

Os ydych, yn ystod y flwyddyn, wedi talu symiau ac eithrio drwy'r Swyddfa Ffioedd, rhowch gyfanswm y symiau hyn ym mlwch 1.34. Fodd bynnag, ni ddylech gynnwys unrhyw beth ym mlwch 1.34 sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig ag eiddo rydych wedi gwneud cais yn eu herbyn i'r Swyddfa Ffioedd ar gyfer Lwfans Costau Byw Ychwanegol.

### ● Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf

**blwch 1.35** Nodwch **ar wahân** yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' blwch 1.40 ar dudalen MP2, swm:

- treuliau eraill yn cynnwys manylion gwariant ar ddiogelwch; **a**
- lwfansau cyfalaf.

Adiwch y symiau hyn a nodwch y cyfanswm ym mlwch 1.35.

#### *Treuliau eraill*

Gallwch ond gwneud cais am y treuliau y byddai pob person sy'n gwneud eich gwaith yn gorfod cwrdd â hwy. Mae'n rhaid i'r treuliau gael eu talu wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd yn wirioneddol. Nid yw treuliau i'ch rhoi mewn sefyllfa i wneud eich swydd, yn hytrach na'r perfformiad gwirioneddol ohoni, yn ganiataol.

Cafodd y rhan fwyaf o'r treuliau y gallwch wneud cais amdanynt eu hystyried eisoes. Fodd bynnag, efallai y gallech wneud cais am dreuliau eraill a delir gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau, er enghraifft, taliadau a nodwyd gennych ym mlwch 1.19 ac sy'n cwrdd â'r amodau cymhwyso ar gyfer rhyddhad treth. Efallai eich bod wedi cytuno ar geisiadau â ni ar eitemau eraill yn y gorffennol. Os felly, dylech gyfrifo swm y treuliau caniataol ar y sail gytûn. Os ydych yn ansicr o'r hyn y gallech fod â'r hawl i wneud cais amdanynt dylech gysylltu â'ch Swyddfa Cyllid y Wlad am gymorth **cyn** cwblhau blwch 1.35.

#### *Lwfansau cyfalaf*

Bydd lwfansau cyfalaf fel arfer ar gael ar y gost cyfalaf i chi o'r offer y mae'n rhaid i chi eu darparu i'w ddefnyddio wrth gyflawni eich dyletswyddau fel AS neu fel Gweinidog. Nid oes lwfans ar gael ar gyfer offer a ddarparwyd i chi o dan drefniadau'r Tŷ i roi offer Gwybodaeth Technegol. Mae *Taflen Gymorth IR206: Capital allowances for employees and office holders* yn dweud wrthych sut y cânt eu cyfrifo. Amgaeir copi.

Os byddwch yn ystod y flwyddyn yn dechrau neu'n gorffen defnyddio eitem, caiff y lwfansau cyfalaf eu cyfrifo fel petaech wedi prynu neu werthu'r eitem ar y dyddiad hwnnw, gan ddefnyddio gwerth y farchnad ar y dyddiad hwnnw.

Os ymdrinnir â'ch costau cerbyd modur o dan y Cynllun Elw Penodedig Car (FPCS) ym mlwch 1.15, peidiwch â gwneud cais ar gyfer lwfansau cyfalaf ar gyfer y car hwnnw - mae'r FPCS eisoes yn cynnwys rhyddhad. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud cais am ryddhad treth ar sail costau gwirioneddol defnyddio eich car eich hun ar fusnes Seneddol, gallwch wneud cais am lwfansau cyfalaf. Mae *Taflen IR125: Defnyddio eich car neu eich beic modur eich hun ar gyfer gwaith* yn esbonio sut i wneud hyn.

## *Benthyciadau Myfyrwyr*

### ■ *Benthyciadau Myfyrwyr a ad-dalwyd trwy ddidyniadau gan y Swyddfa Ffioedd*

**blwch 1.39** Nodwch ym mlwch 1.39 swm unrhyw ad-daliad am Fenthyciad Myfyrwyr a ddidynwyd gan y Swyddfa Ffioedd ac a gynhwyswyd ar eich P60 neu slipiau cyflog. Ni fydd y P60 yn cynnwys Benthyciadau Myfyrwyr a ddidynwyd gan unrhyw gyflogwr blaenorol. Felly, os ydych yn cwblhau mwy nag un set o dudalennau Senedd (neu dudalennau Cyflogaeth ar gyfer unrhyw gyflogaeth anSeneddol), mae'n rhaid i chi ddefnyddio eich slipiau cyflog, yn ychwanegol i'r P60, er mwyn cyfrifo'r ffigurau i'w rhoi ym mlwch 1.39 ar bob set o'r tudalennau a gwblhewch.

### ■ *Darpariaeth pensiwn*

Mae eich cyflog fel AS neu fel Gweinidog yn disgyn o fewn y cynllun pensiwn ffurfiol a weinyddir gan y Swyddfa Ffioedd/Swyddfa Ymddiriedolaeth Gyhoeddus. Felly (oni bai nad ydych yn perthyn i'r cynllun) ni allwch wneud cais am ryddhad ar gyfer taliadau blwydd-dâl ymddeol neu gyfraniadau pensiwn personol mewn perthynas â'r incwm hwn.

Mae'r Swyddfa Ffioedd/Swyddfa Ymddiriedolaeth Gyhoeddus yn gweinyddu Cynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol drwy Equitable Life, Clerical Medical ac Eagle Star ar ran yr Aelodau. Gall gweinidogion nad ydynt yn Aelodau o Dŷ'r Cyffredin berthyn i'r cynlluniau hynny. Fel arall efallai bod trefniadau tebyg yn cael eu gwneud iddynt gan yr Adran sy'n eu cyflogi. Rhoddir rhyddhad ar gyfer cyfraniadau a wneir i'r cynlluniau hyn drwy ddidynnu symiau a delir o'r taliad cyflog cyn codi treth. Felly, peidiwch â gwneud cais am y cyfraniadau hyn ar eich Ffurflen Dreth. Os bydd angen help arnoch, bydd y Swyddfa Ffioedd a/neu'r Adran sy'n eich cyflogi yn gallu rhoi cyngor i chi.

#### *Terfyn ar gyfraniadau*

Ni ddylai eich cyfraniadau i'r holl gynlluniau y sonnir amdanynt yma, yn eu crynswth, fynd y tu hwnt i derfyn enillion o 15% (hyd at derfyn enillion o £95,400 mewn rhai achosion).

#### *Cynlluniau budd-daliadau ymddeol cyflogwyr*

Os penderfynwch wneud cyfraniad cyfandaliad i'r Swyddfa Ffioedd/Cynllun Adrannol yna, ar yr amod nad yw'r cyfraniad yn mynd y tu hwnt i'r terfyn, nodwch ffigur y cyfandaliad ym mlwch 14.10 ar dudalen 5 eich Ffurflen Dreth. (Dylech ond gwneud cais am daliadau na chawsant eu didynnu wrth y ffynhonnell o'ch cyflog cyn cael eu trethu.)

#### *Cynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd*

Gallwch dalu hyd at 15% o'ch cyflog fel AS neu fel Gweinidog (hyd at y terfyn enillion o £95,400 mewn rhai achosion), *llai* yr hyn a dalwyd gennych i gynlluniau eraill y sonnir amdanynt uchod, i gynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd (FSAVC). Byddwch yn cael rhyddhad yn awtomatig ar gyfradd sylfaenol y dreth ar y taliadau hyn pan fyddwch yn eu talu. Os ydych yn drethadwy ar gyfradd uwch, mae rhyddhad pellach ar gael. Nodwch swm gros y taliadau FSAVC ym mlwch 14.17 ar dudalen 5 eich Ffurflen Dreth: dyma'r swm a dalwch mewn gwirionedd i'ch darparwr FSAVC yn ogystal â'r rhyddhad treth a ddidynnwyd gennych o'r taliad.

*Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.*